DATGANIAD I'R WASG

Cyhoeddwyd gan
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs 029 20395 250

Dyddiad 10 Tachwedd 2004

ARGYMHELLION TERFYNOL AR GYFER YR ETHOLAETHAU SENEDDOL YN SIR GADWEDIG GORLLEWIN MORGANNWG

Mae'r Comisiwn yn cynnig peidio gwneud unrhyw newid i'w argymhellion dros dro ar gyfer y pum etholaeth yn sir gadwedig Gorllewin Morgannwg:

1. Cyhoeddwyd argymhellion dros dro mewn perthynas â Gorllewin Morgannwg, ar 5 Ionawr 2004. Arweiniodd gwrthwynebiadau i'r argymhellion dros dro at ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd yn Abertawe ar 13 Gorffennaf 2003. Argymhellodd y Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad i beidio newid argymhellion dros dro y Comisiwn. Ar ôl ystyried ei adroddiad a'i argymhellion, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Comisiwn dderbyn ei argymhellion a gwneud cynigion terfynol yn unol â hynny.

Adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol

2. Roedd y Comisiynydd Cynorthwyol yn gefnogol i benderfyniad y Comisiwn i ddyrannu pum etholaeth i Orllewin Morgannwg. Derbyniwyd un gwrthgynnig ac fe'i trafodwyd yn yr ymchwiliad. Y prif faterion a godwyd yn y gwrthgynnig oedd:

(a) trosglwyddo rhanbarthau etholiadol Blaen-gwrach, Glyn-nedd, Pelenna a Resolfen o etholaeth Castell-nedd i etholaeth Aberafan;
(b) trosglwyddo rhanbarthau etholiadol Clydach a Mawr o etholaeth Gŵyr i etholaeth Castell-nedd;
(c) trosglwyddo rhanbarth etholiadol Mayals o etholaeth Gorllewin Abertawe i etholaeth Gŵyr.

Rhanbarthau etholiadol Blaen-gwrach, Glyn-nedd, Pelenna a Resolfen

3. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwrthgynnig yn cynnig trosglwyddo rhanbarthau etholiadol Blaen-gwrach, Glyn-nedd, Pelenna a Resolfen o etholaeth Castell-nedd i etholaeth Aberafan. Nododd y byddai hyn yn lleihau'r gwahaniaeth yn nifer yr etholwyr rhwng etholaeth Aberafan a'r etholaethau eraill yng Ngorllewin Morgannwg, ond daeth i'r casgliad, o bwyso hyn yn erbyn yr anghyfleustra dilynol a thorri cysylltiadau lleol, nid oedd hyn yn cyfiawnhau newid ffin yr etholaeth rhwng Castell-nedd ac Aberafan.

Rhanbarthau etholiadol Clydach a Mawr

4. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwrthgynnig hefyd yn cynnig trosglwyddo rhanbarthau etholiadol Clydach a Mawr o etholaeth Gŵyr i etholaeth Castell-nedd. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, daeth i'r casgliad y byddai gymaint o anghyfleustra a thorri cysylltiadau lleol yn llifo o'r newid, ni ddylid gwneud y newid.

Rhanbarth etholiadol Mayals

5. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol bod yr achos a roddwyd gerbron i drosglwyddo rhanbarth etholiadol Mayals o etholaeth Gorllewin Abertawe i etholaeth Gŵyr ryfwaint yn wahanol, gan mai mantais y cynnig fyddai uno Cyngor Cymuned Mayals mewn un etholaeth. Derbyniodd y byddai'r gwrthgynnig mewn perthynas â Mayals yn cryfhau ei gysylltiadau â'r Mwmbwls, ac yn cynyddu cyfleustra'r cyngor cymuned wrth gynrychioli'i ardal. Fodd bynnag, derbyniodd hefyd y byddai'r newid yn torri'r cysylltiadau â chynrychiolaeth seneddol a'r Cynulliad a oedd wedi bodoli am 30 mlynedd a mwy, ac ychydig o ddryswch, os o gwbl, oedd yn ei gylch. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol mai ei farn ef oedd, 'bach iawn fydd yr anghyfleustra a'r torri cysylltiadau lleol yn sgil newid felly, ac mae'n cydbwyso yn erbyn y prif wrthgynnig.'

Casgliad am y prif wrthgynnig

6. Casgliad y Comisiynydd Cynorthwyol am y prif wrthgynnig oedd bod y gwelliant dilynol yn y gwahaniaeth etholiadol yn cael ei wrthbwyso gan yr anghyfleustra a'r torri cysylltiadau lleol dilynol. Argymhellodd felly na ddylid mabwysiadu'r prif wrthgynnig.

Gwrthgynigion eraill

7. Cynigiwyd gwrthgynigion eraill yn yr ymchwiliad, ac ystyriwyd y rhain gan y Comisiynydd Cynorthwyol yn ei adroddiad. Roedd o'r farn mai'r cynnig arall i drosglwyddo rhanbarthau etholiadol Pelenna a Resolfen i etholaeth Aberafan, trosglwyddo Mayals i etholaeth Gŵyr a throsglwyddo Clydach i etholaeth Castell-nedd oedd y cynnig mwyaf deniadol i'r graddau ei fod yn llwyddo i leihau'r gwahaniaeth yn nifer yr etholwyr rhwng yr etholaethau gyda llai o anfantais, yn nhermau anghyfleustra a thorri cysylltiadau lleol, na hynny a gysylltir â'r prif wrthgynnig. Serch hynny, daeth i'r farn y dylid gwrthod y cynnig hwn hefyd ar sail anghyfleustra a thorri cysylltiadau lleol.

Argymhellion terfynol

8. Ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, transgript o'r ymchwiliad a'r cynrychiolaethau ysgrifenedig, penderfynodd y Comisiwn dderbyn pob un o argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol ac i gadarnhau argymhellion dros dro y Comisiwn yn unol â hynny.

9. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer sir gadwedig Gorllewin Morgannwg, a fydd yn cael eu cynnwys yn ei adroddiad i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiwedd yr adolygiad cyffredinol, ac a ddangosir ar y map atodedig, ar gyfer pum etholaeth fel a ganlyn (dangos nifer etholwyr 2003 mewn cromfachau).

ABERAVON COUNTY CONSTITUENCY (50,422) Rhanbarthau etholiadol **Sir Castell-nedd Port Talbot**: Aberafan, Baglan, Dwyrain Llansawel, Gorllewin Llansawel, Bryn a Chwmafan, Coed-ffranc Canol, Gogledd Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc, Y Cymer, Glyncorrwg, Gwynfi, Margam, Port Talbot, Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, Tai-bach.

GOWER COUNTY CONSTITUENCY (60,535) Rhanbarthau etholiadol **Sir Abertawe**: Llandeilo Ferwallt, Clydach, Fairwood, Gorseinon, Gŵyr, Tre-gŵyr, Pontybrenin, Llangyfelach, Llwchwr Isaf, Mawr, Newton, Ystumllwynarth, Penclawdd, Penllergaer, Pennard, Penyrheol, Pontarddulais, Llwchwr Uchaf, West Cross.

NEATH COUNTY CONSTITUENCY (56,982) Rhanbarthau etholiadol **Sir Castell-nedd Port Talbot**: Aberdulais, Yr Allt-wen, Blaen-gwrach, Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Cimla, Y Creunant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glyn-nedd, Godre'r-graig, Gwauncaegurwen, Brynamman Isaf, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Onllwyn, Pelenna, Pontardawe, Resolfen, Rhos, Blaendulais, Tonna, Trebannws, Ystalyfera.

SWANSEA EAST BOROUGH CONSTITUENCY (57,226) Rhanbarthau etholiadol **Sir Abertawe**: Bon-y-maen, Cwmbwrla, Glandŵr, Llansamlet, Treforys, Mynyddbach, Penderi, St.Thomas.

SWANSEA WEST BOROUGH CONSTITUENCY (58,336) Rhanbarthau etholiadol **Sir Abertawe**: Y Castell, Cocyd, Dyfnant, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Mayals, Sgeti, Townhill, Uplands.

Cynrychiolaethau

10. Yn unol ag adran 5 Deddf 1986 a'r gweithdrefnau a nodir yn llyfryn arweiniad y Comisiwn a gyhoeddwyd yn 2003, nid oes hawl gan y Comisiwn ystyried unrhyw gynrychiolaethau pellach mewn perthynas â'r argymhellion hyn. Pan fydd y Comisiwn wedi cwblhau'i adolygiad o Gymru gyfan, bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gweithredu'r argymhellion

11. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno'i adroddiad ar yr adolygiad cyffredinol o Gymru gyfan i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl 16 Rhagfyr 2002 a chyn 17 Rhagfyr 2006. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd statudol i roi adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd, ynghyd â drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n rhoi grym i argymhellion y Comisiwn gyda newidiadau neu heb newidiadau. Os cynigir newidiadau, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd roi datganiad o resymau am y newidiadau. Cyflwynir y drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ddau Dŷ'r Senedd i'w cymeradwyo ac, wedi iddo gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, ni ellir codi amheuaeth yn ei gylch mewn unrhyw achos cyfreithiol. Daw'r etholaethau newydd i rym adeg yr etholiad cyffredinol nesaf ar ôl gwneud y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

Map amlinellol

12. Dangosir amlinelliad o'r rhanbarthau etholiadol ar y map sy'n rhan o'r ddogfen hon (sylwer ar y rhybudd hawlfraint isod sy'n ymwneud â'r map). Mae'r rhanbarthau etholiadol ar y map wedi'u rhifo, ac mae rhestr o'r rhifau hyn ac enwau'r rhanbarthau etholiadol ar y ddalen

gefn, ynghyd â ffigurau etholiadol 2003 y mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio arnynt yn ôl y gyfraith.

Hawlfraint y Goron

13. Mae'r map amlinellol sy'n rhan o'r ddogfen hon wedi'i seilio ar ddata'r Arolwg Ordnans ac mae Hawlfraint y Goron arno. Bydd atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno atgynhyrchu'r map amlinellol gysylltu'n gyntaf â'r Swyddfa Hawlfraint yn Ordnance Survey, Romsey Road, Southampton SO16 4GU (ffôn 023 8079 2929)

Ymholiadau

14. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 – 6 Plas Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3BE.

Rhif Ffôn 029 2039 5031
Ffacs 029 2039 5250
E-bost comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

Argyhellion Terfynol ar gyfer Gorllewin Morgannwg
Final Recommendations for West Glamorgan

ALLWEDD / KEY

Ffiniau / Boundaries:

Rhanbarth Etholiadol / Electoral Division

Awdurdod Unedol / Unitary Authority

Etholaeth Arfaethedig / Proposed Constituency

A - Abertawe - Swansea

B - Castell-Nedd Port Talbot - Neath Port Talbot

Sedd Seat	Enw a Theitl Name & Designation	2003
1	ABERAVON CC	50,422
2	GOWER CC	60,535
3	NEATH CC	56,982
4	SWANSEA EAST BC	57,226
5	SWANSEA WEST BC	58,336

Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron

This map is based on the Ordnance Survey map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office (c) Crown Copyright



Gorllewin Morgannwg

A.	**Castell-nedd Port Talbot**	**107,404**
1.	Aberafan	4,222
2.	Aberdulais	1,500
3.	Yr Allt-wen	1,754
4.	Baglan	5,535
5.	Blaen-gwrach	1,524
6.	Dwyrain Llansawel	2,400
7.	Gorllewin Llansawel	2,186
8.	Bryn a Chwmafan	5,139
9.	Gogledd Bryn-coch	1,935
10.	De Bryn-coch	4,354
11.	Llangatwg	1,415
12.	Cimla	3,356
13.	Coed-ffranc Canol	3,035
14.	Gogledd Coed-ffranc	1,851
15.	Gorllewin Coed-ffranc	1,702
16.	Y Creunant	1,533
17.	Cwmllynfell	906
18.	Y Cymer	2,146
19.	Dyffryn	2,565
20.	Glyncorrwg	895
21.	Glyn-nedd	2,842
22.	Godre'r-graig	1,161
23.	Gwauncaegurwen	2,238
24.	Gwynfi	1,109
25.	Brynamman Isaf	1,048
26.	Margam	2,232
27.	Dwyrain Castell-nedd	4,568
28.	Gogledd Castell-nedd	3,223
29.	De Castell-nedd	3,665
30.	Onllwyn	955
31.	Pelenna	954
32.	Pontardawe	3,971
33.	Port Talbot	4,283
34.	Resolfen	2,449
35.	Rhos	2,053
36.	Dwyrain Sandfields	4,933
37.	Gorllewin Sandfields	5,046
38.	Blaendulais	1,558
39.	Tai-bach	3,708
40.	Tonna	1,965
41.	Trebannws	1,091
42.	Ystalyfera	2,399

B.	**Abertawe**	**176,097**
1.	Llandeilo Ferwallt	2,807
2.	Bon-y-maen	4,816
3.	Y Castell	9,695
4.	Clydach	5,771
5.	Cocyd	10,043
6.	Cwmbwrla	6,234
7.	Dyfnant	3,669
8.	Fairwood	2,279
9.	Gorseinon	2,639
10.	Gŵyr	3,089
11.	Tre-gŵyr	3,806
12.	Gogledd Cilâ	3,235
13.	De Cilâ	1,947
14.	Pontybrenin	3,245
15.	Glandŵr	4,592
16.	Llangyfelach	3,666
17.	Llansamlet	9,381
18.	Llwchwr Isaf	1,793
19.	Mawr	1,493
20.	Mayals	2,458
21.	Treforys	12,766
22.	Mynyddbach	7,109
23.	Newton	2,869
24.	Ystumllwynarth	3,483
25.	Penclawdd	3,031
26.	Penderi	7,612
27.	Penllergaer	1,915
28.	Pennard	2,237
29.	Penyrheol	4,474
30.	Pontarddulais	4,298
31.	St.Thomas	4,716
32.	Sgeti	11,323
33.	Townhill	5,732
34.	Uplands	10,234
35.	Llwchwr Uchaf	2,133
36.	West Cross	5,507